**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

# Rhaglen Gyflawn

Cyfarfod

**PWYLLGOR CYSWLLT RHEILFFORDD ARFORDIR Y CAMBRIAN**

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b., DYDD GWENER, 28AIN MAWRTH, 2025**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

*I gael mynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, plis cysylltwch â ni

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679 878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(DOSBARTHWYD: 20/03/25)

# PWYLLGOR CYSWLLT RHEILFFORDD ARFORDIR Y CAMBRIAN

## AELODAETH

Cyngor Gwynedd
Cynghorwyr:
Elfed Wyn ap Elwyn
Louise Hughes
Elin Hywel
Anne Lloyd Jones
Eryl Jones-Williams
Gwilym Jones
Dewi Owen
Gwynfor Owen
Richard Glyn Roberts
Sedd wag – Plaid Cymru

Craig ab Iago – Aelod Cabinet Amgylchedd

| | |
|---|---|
| Cyngor Sir Ceredigion | Sedd wag |
| Cyngor Sir Powys | Cynghorydd Alwyn Evans |

Aelod Cyfetholedig:

| | |
|---|---|
| Aled Williams | Ysgol Ardudwy |
| Aled Jones-Griffith | Coleg Meirion Dwyfor – Grwp Llandrillo Menai |
| Ann Elias | Cyngor Sir Ceredigion |
| Chris Wilson | Cyngor Sir Ceredigion |
| Sedd wag | Rheilffordd Ffestiniog |
| Claire Williams | Partneriaeth Rheilffordd Cambrian |
| Cynghorydd Meryl Roberts | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri |
| Cynghorydd Alun Wyn Evans | Cynrychiolydd Meirionnydd Un Llais Cymru |
| Sedd wag - | Cynrychiolydd Dwyfor Un Llais Cymru |
| Cynghorydd Trevor Roberts | Pwyllgor Rheilffordd Amwythig/Aberystwyth |
| David Crunkhorn | Trenau Arriva Cymru |
| David Thorp | Ysgol Uwchradd Tywyn |
| Delwyn Evans Grwp | Mynediad Meirionnydd |
| Joyce Watson | Aelod Senedd Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Liz Saville Roberts | Aelod Seneddol Llyw Prydain - Dwyfor Meirionnydd |
| Mabon ap Gwynfor | Aelod Senedd Dwyfor Meirionnydd |
| Cefin Campbell | Aelod Senedd Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Bill Redfern | Cymdeithas Teithwyr Amwythig - Aberystwyth |
| Lorraine Simkiss | Rheilffordd Talyllyn |

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Gail Jones | Trafnidiaeth Cymru |
| Tomos Roberts | Network Rail |
| Rhian Williams | Rheolwr Cludiant Integredig a Diogelwch Ffyrdd Cyngor Gwynedd |
| Tomos Davies | Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig |

# RHAGLEN

## 1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION 4 - 7

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 29ain o Dachwedd 2024 fel rhai cywir

## 5. DIWEDDARIAD GAN WASANAETHAU

I dderbyn diweddariad gan

- Network Rail
- Trafnidiaeth Cymru

  Amserlen 2025 – 2026
- Heddlu Trafnidiaeth Brydeinig

## 6. CWESTIYNAU FFURFIOL 8 - 9

I dderbyn ymateb i gwestiynau ffurfiol a dderbyniwyd:

- Cyngor Cymuned Llanbedr

**PWYLLGOR CYSWLLT RHEILFFORDD ARFORDIR Y CAMBRIAN**

**29ain Tachwedd 2024**

**Presenoldeb:**

Cyng. Dewi Owen (Cyngor Gwynedd) - Cadeirydd
Cyng. Gwynfor Owen (Cyngor Gwynedd)
Cyng. Anne Lloyd Jones (Cyngor Gwynedd)
Cyng. Eryl Jones-Williams (Cyngor Gwynedd)
Cyng. Gwilym Jones (Cyngor Gwynedd)
Cyng. Elfed Wyn ab Elwyn (Cyngor Gwynedd)
Cyng. Elin Hywel (Cyngor Gwynedd)

Cyng. Meryl Roberts (Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri)
Cyng. Trevor Roberts (Pwyllgor Rheilffordd Amwythig / Aberystwyth)
Bill Redfern (Cymdeithas Trenau Teithwyr Amwythig – Aberystwyth)

Tomos Roberts (Network Rail)
Heledd Walters (Network Rail)
Tomos Davies (Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig)
Rhian Williams (Rheolwr Cludiant Integredig a Diogelwch Ffyrdd Cyngor Gwynedd)
Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth Cyngor Gwynedd)

**1. YMDDIHEURIADAU:**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Cyng. Louise Hughes (Cyngor Gwynedd), Cyng. Richard Glyn Roberts (Gwynedd), Liz Saville Roberts (AS Dwyfor Meirionnydd), Mabon ap Gwynfor (AS Dwyfor Meirionnydd)**,** Llio Hughes (Swyddfa Plaid Cymru), Delyth Griffiths (Swyddfa Plaid Cymru, Dolgellau), Joyce Watson (Aelod Seneddol Canolbarth a Gorllewin Cymru), Gail Jones (Trafnidiaeth Cymru) a Clare Britton (Rheilffordd Ffestiniog)

Cydymdeimlwyd gyda theulu'r diweddar Cyng. J M Williams (Cyngor Sir Powys) oedd wedi bod yn aelod ffyddlon o'r Pwyllgor ers blynyddoedd.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. COFNODION**

Derbyniodd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod blaenorol y pwyllgor hwn a gynhaliwyd 23ain o Fai 2024 fel rhai cywir

## 5. DIWEDDARIAD GAN Y GWASANAETHAU

**Trafnidiaeth Cymru (TrC)**

Mynegwyd siom nad oedd cynrychiolydd o Trafnidiaeth Cymru yn bresennol yn y cyfarfod o ystyried bod nifer o faterion angen ymateb iddynt.

- Bod ymateb Ken Skates (Ysgrifennydd y Cabinet dros Ogledd Cymru a Thrafnidiaeth) i rybudd o gynnig a gafwyd yng nghyfarfod o'r Cyngor Llawn Mai 2024 wedi ei dderbyn ym mis Hydref - cywilydd bod hyd at 5 mis wedi pasio cyn derbyn ymateb a'r ymateb hwnnw yn cynnwys yr un esgusodion ac atebion gwael
- Amser y trên olaf tua'r gogledd (19:00) yn annerbyniol gan nad oes bysiau nos rhwng Machynlleth a Thywyn nac Abermaw a Porthmadog. Bydd cwestiwn yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn mis Rhagfyr yn galw ar Cyngor Gwynedd i gyflwyno sylwadau cryf i TrC a Llywodraeth Cymru ynghylch colli'r trên hwyraf ar reilffordd Arfordir y Cambrian. Bydd lleihad mewn gwasanaeth yn cael effaith ar economi'r ardal wrth i bobl fethu teithio adref ar y trên o'u gwaith a digwyddiadau cymdeithasol – hyn yn eithrio pobl / gosod cyrffyw.
- Annhegwch llwyr gyda'r nifer trenau sy'n rhedeg ar reilffyrdd de Cymru
- Niferoedd teithwyr TrC erioed wedi bod yn gywir gyda honiadau o drenau gwag pan, mewn gwirionedd y trenau yn llawn a thaliadau teithwyr ddim yn cael eu casglu - y wybodaeth sydd yn cael ei gasglu yn gamarweiniol ac yn nonsens llwyr. Beth yw'r arbedion ariannol sydd yn deillio o hyn?
- Bod amseroedd ymweld â threfi megis yr Amwythig, wedi ei lleihau o 8 awr i 3 awr
- Nad oedd Adolygiad Amserlen Ar-lein TrC wedi ystyried effaith cydraddoldeb. Cyfrifoldeb y Llywodraeth yw hyn - rhaid ymgynghori a chwblhau asesiadau cyn gweithredu newidiadau yn unol â'r cytundeb. **BR i rannu'r wybodaeth gyda LHE**
- Beth yw strwythur TrC? Llywodraeth Cymru yw perchnogion TrC ac felly gan bwy mae'r atebolrwydd?
- Bod nifer defnyddwyr platfform Llanbedr bron yn cyfateb gyda ffigyrau cyn covid – tystiolaeth bod y rheilffordd yn cael ei defnyddio! Sut felly mae TrC yn casglu data?
- Bod toriadau i wasanaeth digonol yn gwneud y sefyllfa yn un annigonol i'r defnyddiwr
- Angen pwyso ar Aelodau Seneddol Dwyfor Meirionnydd i leisio barn
- Pryd fydd y trenau newydd yn cael eu cyflwyno?

Mewn ymateb i sylw am yr angen i bwyso ar Aelodau Seneddol Dwyfor Meirionnydd i leisio barn, amlygwyd bod Mabon ap Gwynfor wedi sefydlu deiseb yn galw ar TrC a Llywodraeth Cymru i ddiogelu gwasanaethau Reilffordd Arfordir y Cambrian. Nodwyd bod y ddeiseb yn amlygu bod y rheilffordd yn gyswllt trafnidiaeth hanfodol i drigolion lleol ac economi ymwelwyr Gwynedd gyda chymunedau yn ddibynnol ar y gwasanaeth am resymau addysg, cyflogaeth, twristiaeth, siopa ac iechyd. Ategwyd yn hytrach na thorri gwasanaethau pellach, dylai TrC a Llywodraeth Cymru fod yn buddsoddi mewn cysylltiadau trafnidiaeth leol ledled gogledd orllewin Cymru, gan sicrhau bod pobl leol ac ymwelwyr yn cael gwasanaethau trên cadarn, dibynadwy a hygyrch.

[Deiseb Diogelu Rheilffordd Arfordir y Cambrian]

**Network Rail**

Croesawyd Tomos Roberts a Heledd Walters i'r cyfarfod.

Yn dilyn damwain trychinebus diweddar yn Nhalerddig, cydymdeimlwyd gyda theuluoedd a theithwyr oedd wedi dioddef, a nodwyd bod TrC a Newtwork Rail yn cydweithio i adfer y sefyllfa.

Tynnwyd sylw at y gwaith sydd yn cael ei wneud ar y rheilffordd rhwng Machynlleth a Pwllheli gyda bysiau yn cymryd lle trenau rhwng gorsafoedd Machynlleth a Pwllheli o 16.45 8fed Rhagfyr 2024 tan 07.30 16 Rhagfyr 2024. Y rheswm dros gau'r rheilffordd oedd y byddai Network Rail yn ail-osod mwy nag 1km o drac rhwng gorsafoedd Dyffryn Ardudwy a Harlech fydd yn cynnwys 1,800 o "sleepers" newydd a 3,600 tunnell o falast (carreg trac). Ategwyd, os am gynllunio taith, bod manylion llawn ar gael ar wefan Trafnidiaeth Cymru.

Croesawyd buddsoddiad Network Rail

Mewn ymateb i sylw bod gwybodaeth anghywir wedi ei rannu ynglŷn â ffordd amgen i'w defnyddio yn ystod y cyfnod cau, nodwyd y bydd y sylw yn cael ei gyfeirio at y Tîm Prosiect i'w gywiro.

Mewn ymateb i gwestiwn pam na ellid rhedeg trenau rhwng Abermaw a Chyffordd Dyfi yn ystod cwblhau y gwaith rhwng Dyffryn Ardudwy a Harlech, fydd yn lleihau'r effaith (yn enwedig ar deithiau plant ysgol), nodwyd bod gwaith ar safleoedd eraill ar hyd y rheilffordd hefyd yn cael eu cwblhau ac felly bod angen cau'r rheilffordd.

Materion eraill yn codi:

- Lifft Gorsaf Machynlleth - cyfarwyddiadau'r lifft yn uniaith Saesneg, a yw hyn wedi ei gywiro? **Tomos Roberts i holi'r Tîm Lleol**

**Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig**

Croesawyd Tomos Davies i'r cyfarfod.

Nododd bod un mater sylweddol wedi dod i sylw'r Heddlu yn ymwneud â thirfeddiannwr oedd bellach yn gwrthod gwneud galwad ffôn i geisio caniatâd i agor giatiau i groesi'r rheilffordd. Yn dilyn cwyn gan y tirfeddiannwr nad oedd y gwasanaeth ffôn ar gael yn y Gymraeg, penderfynodd beidio gwneud galwadau am ganiatâd, gan agor y giatiau ei hun. Ystyriwyd hyn fel defnydd anghyfrifol o'r groesfan ac felly'n arwain at gyflwyno'r tirfeddiannwr gyda Gorchymyn Llys. Ategwyd bod y mater wedi bod yn mynd ymlaen ers rhai blynyddoedd gyda'r Heddlu wedi gorfod ymyrryd ar sawl achlysur. Er yn derbyn rhwystredigaeth y tirfeddiannwr nad oedd Rheolwyr Croesfan Rheilffordd ar gael i ymateb yn Gymraeg, a hynny yn groes i bolisi TrC, nodwyd bod y mater bellach yn cael ei ystyried nid fel mater ieithyddol yn unig, ond fel un oedd yn amlwg yn diystyru rheolau'r rheilffordd a diogelwch y cyhoedd.

Mewn ymateb i'r mater, nodwyd:

- Bod angen datrys y mater cyn bydd damwain
- Yn croesawu ymateb yr Heddlu i gyflwyno Gorchymyn Llys
- Angen sicrhau diogelwch y cyhoedd
- Bod cyfrifoldeb ar TrC / Network Rail i sicrhau bod gwasanaeth Gymraeg ar gael

Materion eraill yn codi:

- Gorsaf Penrhyndeudraeth
  Bod achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi bod yn yr orsaf. Yr Heddlu wedi ymateb ac wedi siarad gyda'r plant ynglŷn â pharchu eiddo pobl eraill a gwarchod delwedd gyhoeddus

- Croesfan ger Ysgol Harlech.
  Cais gan Reolwr Cludiant Integredig a Diogelwch Ffyrdd Cyngor Gwynedd i'r Heddlu sgwrsio gyda'r plant am ddiogelwch. **TD i drafod gyda Swyddfa Machynlleth fel eu bod yn gallu monitro'r sefyllfa. Natur y cwynion i'w rhannu gyda'r Cyng. Gwynfor Owen fel ei fod yn gallu trafod gyda Phillip Caldwell (Rheolwr Croesfan Leol Network Rail)** sydd bob amser yn barod i ymateb i faterion diogelwch.

- Gorsaf Tywyn
  Cyfnod amser rhwng Ysgol Uwchradd Tywyn yn cau a'r trên adref i ddisgyblion yn arwain at gamymddwyn yn yr orsaf. Cais i ystyried cael presenoldeb Bugeiliaid Stryd (Street Pastors) yn yr orsaf a/ neu ar y platfform oherwydd nad oes gweithwyr gorsaf yn bresennol. **TD i drafod y posibilrwydd gyda Swyddfa Machynlleth.**

- Yr Iaith Gymraeg
  Bod angen gweld mwy o Gymraeg ar drenau'r Cambrian
  Awgrym i wahodd Lowri Joyce (Arweinydd Strategaeth y Gymraeg, Trafnidiaeth Cymru) i gyfarfod Mawrth 2025

  Strategaeth y Gymraeg | Trafnidiaeth Cymru

## 6. CWESTIYNAU FFURFIOL

Derbyniwyd cwestiynau gan Cyngor Cymuned Llanbedr, Cyngor Tref Criccieth a Chyngor Tref Porthmadog.

Nodwyd y byddai'r Gwasanaethau yn ymateb yn uniongyrchol i'r Cynghorau Cymuned / Tref

Cyfarfod nesaf i'w gynnal Mawrth 2025 – **LHE i drefnu**

Dechreuodd y cyfarfod am 10:30 a daeth i ben am 12:00

**CADEIRYDD**

**PWYLLGOR CYSWLLT RHEILFFORDD ARFORDIR Y CAMBRIAN**
**28 Mawrth 2025**

**CAMBRIAN COAST RAILWAY LIAISON COMMITTEE**
**28 March 2025**

**Cwestiwn i TRAFNIDIAETH CYMRU / Question for TRANSPORT FOR WALES**

**Er ein bod wedi cael cydnabyddiaeth o'n cwestiynau a anfonwyd yn ol ym mis Tachwedd a code reference, mae hi bellach bron yn Fis Ebrill a dim wedi cael ei weithredu.**

**Although we have received acknowledgment of the questions we sent back in November and a code reference, it is now almost April and nothing has been done**

**Dyma yr un hen gwestiynnau eto!!**

**New: Talwrn Bach ar yr arwydd yn ogystal a Llanbedr. Byddai hyn yn dderbynniol cyn yr haf.**
**Bin ger y safle – ar y cyd gyda Cyngor Gwynedd (bin sbwriel a bin baw cwn)**
**Barriers diogelwch ar y ffordd.**
**Gwelliant i'r Shelter – angen cryfhau y to fel nad yw yn gollwng dwr.**
**Cynllun i brynu map o lwybrau cyhoeddus er mwyn hyrwyddo rhain – fel yr un yn y Pentref, a'i osod ar gefn y Shelter.**

**Here are the same old questions again!!**
**The name Talwrn Bach to be included on the sign as well as Llanbedr. This will be acceptable before the summer.**
**Bin near the site - jointly with Gwynedd Council (rubbish bin and dog waste bin)**
**Safety barriers on the road.**
**Improvement to the Shelter - the roof needs to be strengthened so that it does not leak water.**
**Plan to buy a map of public paths in order to promote these - like the one in the Village, and to place it on the back of the Shelter.**

**A fydd gwell gwasanaeth tren yn y dyfodol?**
**Neu a fydd yna dal ansicrwydd parthed y toriadau posib I'r gwasanaeth at y gaeaf?**
**A fydd yna fwy neu llai o wasanaethau?**

**Will there be a better train service in the future?**
**Or will there still be uncertainty regarding the possible cuts to the service for the winter?**
**Will there be more or less services?**

**Cwyn wedi ei dderbyn parthed gwasanaeth tren sydd drwodd o Talwrn Bach i Birmingham, dechrau y mis. Yn anffodus bu i'r sawl fwcio y tren, ac yna gorfod newid ym Machynlleth a hefyd aros yn hir ar y platform yn Machynlleth am y tren cyswllt.**
**Nid oedd hyn yn dderbynniol – y sawl yn mynd efo teulu a hitha mewn cadair olwyn. Siomedig iawn iddynt.**



**A complaint has been received regarding a train service that is through from**

| | |
|---|---|
| **Talwrn Bach to Birmingham, at the beginning of the month. Unfortunately many people booked the train, and then had to change in Machynlleth and also wait a long time on the platform in Machynlleth for the connecting train.**<br>**This was not acceptable - the person going with family was in a wheelchair. Very disappointing for them.** | |
| **Cwestiwn i NETWORK RAIL/ Question for NETWORK RAIL** | |
| **Cwestiwn i'r PWYLLGOR / Question for COMMITTEE** | |
| **Cwestiwn i UNED CLUDIANT CYNGOR GWYNEDD / Question for TRANSPORT UNIT CYNGOR GWYNEDD** | |
| **Cwestiwn i HEDDLU TRAFNIDIAETH PRYDEINIG / Question for BRITISH TRANSPORT POLICE** | |
| **Oddiwrth / From:** | |
| **I'w dychwelyd at**<br>**To be returned to:** | Lowri Haf Evans<br>Gwasanaethau Democratiaeth / Democratic Services<br>Cyngor Gwynedd / Gwynedd Council<br>Stryd y Jel, Caernarfon<br>Gwynedd<br>LL55 1SH<br>01286 679 878<br>lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru |
| **Erbyn / By:** | **13-03-2025** |